Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bro Dyfrdwy

**Safle Cynwyd**
**Cynwyd**
**Corwen**
**Sir Ddinbych**
**LL21 0LG**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Bro Dyfrdwy

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Bro Dyfrdwy |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ddinbych |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 125 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 97 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 17 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 8.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 11.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 50.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2020 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 09/06/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 23/10/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Bro Dyfrdwy yn ysgol hapus a chartrefol. Mae’r holl staff yn cydweithio’n effeithiol i greu ethos gofalgar, Cymreig, cynhwysol a gweithgar lle mae staff a disgyblion yn gofalu’n naturiol am ei gilydd.

Mae disgyblion yn mwynhau eu cyfnod yn yr ysgol yn fawr iawn. Maent yn hapus i’w mynychu, yn ymddwyn yn dda, ac yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos cymhelliant cryf, diddordeb chwilfrydig yn eu dysgu, ac yn gwneud cynnydd cadarn o’u mannau cychwyn.

Mae naws Cymreig cryf yn bodoli yn yr ysgol gyda nodwedd amlwg ar ddarparu ystod o brofiadau gwerthfawr gyda phwyslais clir ar hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o’u milltir sgwâr, a hanes a thraddodiadau Cymru. Trwy hyn, mae disgyblion yn dangos balchder yn eu treftadaeth ynghyd â gwerthfawrogiad amlwg o ddiwylliant a hanes yr ardal leol a thu hwnt.

Mae athrawon yn darparu profiadau dysgu cyfoethog ac ysgogol sy’n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae hyn yn eu galluogi i ddatblygu’r medrau sydd eu hangen arnynt i fanteisio ar gwricwlwm cyfan. Mae gan ddisgyblion lais cryf ym mywyd yr ysgol ac maent yn mwynhau’r cyfleoedd a gânt i ddylanwadu ar beth maent yn dymuno ei ddysgu o fewn thema’r tymor. Maent yn ffynnu trwy gyfrannu at amrywiaeth o gynghorau sy’n cael effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol. Mae hyn yn creu ymdeimlad cryf o berthyn.

Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol a chefnogol sy’n rhoi cyfeiriad clir i’r ysgol. Caiff gefnogaeth gref gan staff ymroddedig sy’n cydweithio â’i gilydd yn dda fel tîm, ac yn rhannu cyfrifoldebau’n synhwyrol. Maent yn dangos ymrwymiad cryf i hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy. Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth dda o waith yr ysgol ac maent yn cefnogi’r ysgol yn effeithiol.

## Argymhellion

A1 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau am sut maent yn trefnu a chyflwyno eu gwaith, a meddwl drostynt eu hunain sut maent yn ymateb i dasgau dysgu

A2 Darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cychwyn yn yr ysgol gyda'u medrau tua'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu cam datblygiad, heblaw am eu medrau Cymraeg, sydd yn iaith newydd i thua hanner ohonynt. Mae disgyblion sy'n hwyrddyfodiaid i'r Gymraeg yn gwneud cynnydd cadarn yn yr iaith, gan fagu hyder i'w defnyddio'n fuan. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion addysgol ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau iaith a chyfathrebu yn dda. Mae disgyblion ieuengaf yn gwrando â diddordeb cynyddol ac yn dal ati i ganolbwyntio am gyfnodau estynedig. Maent yn dwyn i gof amrywiaeth o ganeuon a hwiangerddi Cymraeg yn dda. Caiff hyn effaith gadarnhaol wrth iddynt gaffael a mewnoli'r iaith. Maent yn datblygu hyder i siarad yn ystod gweithgareddau a sesiynau chwarae yn effeithiol, er enghraifft wrth ailddweud chwedl Melangell gyda phypedau. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae llawer yn siarad Cymraeg yn hollol naturiol ac yn defnyddio iaith gyfoethog a geirfa bwrpasol wrth drafod eu gwaith. Maent yn mynegi eu hunain yn aeddfed yn y Gymraeg a'r Saesneg, er enghraifft wrth esbonio gweithgareddau 'Dydd Llun Lles.'

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn llwyddiannus. Maent yn dangos brwdfrydedd at ddarllen ac yn gwerthfawrogi'r ystod ddiddorol o destunau darllen, o ran llyfrau ac adnoddau digidol, sydd ar gael iddynt. Mae disgyblion meithrin a derbyn yn mwynhau gwrando ar storïau a'u hailddweud wrth ffrindiau ac oedolion. Maent yn dechrau adnabod ac enwi amrywiaeth o seiniau ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddechrau darllen testunau syml ond sy'n briodol ar gyfer eu cam datblygiad. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn hyderus, ac yn hapus i fynd i'r afael â geiriau anghyfarwydd gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau darllen pwrpasol. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn darllen yn gywir gyda goslef glir ac eglur, ac yn dangos dealltwriaeth wybodus o'r cyd-destun yn Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau darllen i gywain gwybodaeth o lyfrau a thestunau amrywiol o wefannau priodol, er enghraifft wrth ymchwilio a chyflwyno gwybodaeth am anifeiliaid amrywiol sy'n byw yn y rîff i gefnogi eu gwaith ar 'Fywyd dan y Mor'.

O oedran ifanc, mae llawer o ddisgyblion yn dangos brwdfrydedd at ysgrifennu wrth arbrofi â chreu marciau. Maent yn datblygu i ysgrifennu ag annibyniaeth a rhugldeb cynyddol. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn ysgrifennu ystod gynyddol o frawddegau yn effeithiol am eu hymweliad ag Eglwys Llangar, er enghraifft. Mae'r disgyblion hynaf yn defnyddio eu medrau ysgrifennu yn y ddwy iaith mewn amrywiaeth o ffurfiau. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio geirfa addas ac yn ysgrifennu'n briodol at ddibenion gwahanol ac ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol. Ar frig yr ysgol, maent yn drafftio ac ailddrafftio eu gwaith yn effeithiol ac yn amlygu dychymyg a gwreiddioldeb, er enghraifft wrth ysgrifennu am chwedl Bendigeidfran.

Gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion, ar draws yr ysgol, gynnydd cadarn â'u medrau mathemateg a rhifedd. Mae'r disgyblion meithrin yn datblygu ystod ddefnyddiol o

fedrau mathemategol ac yn mwynhau heriau mathemateg, gan ymgymryd â gemau cyfrif a gweithgareddau paru yn frwdfrydig. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn gweithio'n hyderus gyda phedair rheol rhif, siâp a mesur ac yn datblygu medrau cadarn wrth drin data. Mae llawer yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn fedrus i ddatrys problemau, er enghraifft wrth i benderfynu p'un a ydyn nhw wedi cael gwerth eu pres neu fargen wael wrth brynu nwyddau. Er hyn, lleiafrif o ddisgyblion sy'n cymhwyso eu medrau rhesymu ac ymholi yn ddigon cyson mewn pynciau ar draws y cwricwlwm.

O oedran cynnar, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau digidol mewn ystod o gyd-destunau creadigol i gefnogi eu dysgu ehangach. Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio llechen ddigidol yn hyderus i gofnodi eu dysgu, er enghraifft trwy ddefnyddio rhaglen animeiddio i adrodd chwedl y Carw Gwyn. Mae llawer o ddisgyblion ym Mlynyddoedd 3 i 6 yn defnyddio eu medrau digidol yn hyderus i gefnogi ymchwil annibynnol, ac ysgrifennu, golygu, ailddrafftio a chyflwyno eu canfyddiadau. Er enghraifft, maent yn datblygu eu medrau'n effeithiol wrth greu a chyflwyno fideo i arddangos eu gwaith creadigol am effaith llygredd ar y cefnfor. Maent yn trin data'n hyderus ac yn dechrau datblygu eu medrau codio i reoli teclyn i godi gwrthrychau, er enghraifft.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau creadigol ac artistig yn gadarn. O oedran cynnar, maent yn defnyddio siswrn, glud a brwshys paent yn hyderus ac yn gweithio'n ddychmygus gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau a thechnegau. Maent yn datblygu medrau corfforol cryf, er enghraifft wrth greu dawns yn seiliedig ar chwedl gyfarwydd. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn gwneud dewisiadau doeth o ran pa dechneg a pha offer i'w ddefnyddio wrth efelychu gwaith artistiaid o Gymru a thu hwnt. Maent yn ymfalchio yn eu prosiectau gwaith cartref o ddylunio gwaith 3D sy'n cefnogi eu thema 'O dan y môr' yn llwyddiannus.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron bob disgybl yn teimlo'n hapus a diogel o fewn amgylchedd gynhaliol, cynhwysol ac ysgogol yr ysgol. Maent yn ymdrin yn aeddfed wrth groesawu ymwelwyr. Mae'r rhan fwyaf yn dangos balchder amlwg yn eu hysgol ac yn gwerthfawrogi'r arlwy gyfoethog o brofiadau a ddarperir ar eu cyfer. Caiff hyn ei adlewyrchu ym mrwdfrydedd disgyblion tuag at eu dysgu ac at y gyfradd presenoldeb uchel yn yr ysgol.

Mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn dda ac yn dangos cwrteisi, gofal a pharch amlwg tuag at ei gilydd ac oedolion. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu dealltwriaeth glir o'r gwerthoedd hanfodol sy'n cyfrannu at eu datblygiad fel unigolion cyflawn a dinasyddion cyfrifol a gwybodus. Mae'r modd mae'r disgyblion hynaf yn gofalu am ac yn cymryd cyfleoedd i addysgu'r disgyblion ieuengaf yn adlewyrchu hyn yn effeithiol. Caiff hyn ei amlygu'n drwy'r dull 'Ffrindiau Mawr a Ffrindiau Bach' pan mae'r disgyblion hynaf yn arwain chwaraeon ar y buarth.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn siarad yn frwdfrydig am eu gwaith ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol â thestunau dosbarth. O oedran cynnar, mae disgyblion yn ymgyfarwyddo'n gyflym â threfniadaeth dosbarth wrth ddewis tasgau mewn gwahanol ardaloedd o'r ddarpariaeth. Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn dangos gallu cynyddol i

ganolbwyntio am gyfnodau estynedig ac yn arddangos cymhelliant a chwilfrydedd yn eu dysgu. Maent yn datblygu gwydnwch cynyddol wrth wynebu profiadau dysgu a sefyllfaoedd newydd. Mae disgyblion yn deall yr egwyddor o roi cynnig ar ddatrysiad eu hunain pan ddônt ar draws anawsterau yn eu dysgu. Maent yn gweithredu yn unol â'r strategaeth 'Trîwch Tri Cyn Fi' sy'n cryfhau eu datblygiad fel dysgwyr annibynnol. Er hyn, ar adegau, nid yw disgyblion yn meddwl digon drostynt eu hunain sut i drefnu a chyflwyno eu gwaith wrth ymateb i'w tasgau.

Mae llais y disgybl yn cael lle canolog ym mywyd a gwaith yr ysgol. Mae disgyblion yn hapus i drafod unrhyw bryderon ag aelodau staff, ac maent yn hyderus i wrando arnynt. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn frwdfrydig wrth gynnig syniadau am yr hyn yr hoffent ei ddysgu yn eu themâu. Mae llawer yn cymryd perchnogaeth dros eu dysgu, er enghraifft drwy gymryd rhan weithredol yn y broses o osod targedau unigol ac asesu eu hunain. Gallant drafod yn wybodus y broses gan gynnig rhesymau dros eu targedau rhifedd, llythrennedd a phersonol, a'r camau i gyflawni'r agweddau hynny mae angen iddynt eu gwella. Mae'r rhan fwyaf yn ymateb yn gadarnhaol i adborth athrawon a chynorthwywyr wrth wella a mireinio eu gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn barod i ymgymryd â chyfrifoldebau yn gyson. Mae llawer yn gwneud defnydd da o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau arwain trwy ystod o rolau a chynghorau llais y disgybl. Trwy hyn, mae llawer o ddisgyblion yn hyderus ac yn gallu esbonio ble mae eu gwaith wedi gwneud gwahaniaeth i fywyd yr ysgol. Er enghraifft, maent yn siarad yn frwdfrydig am ddylanwad y cyngor eco wrth ddatblygu tir yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o sut i ofalu am eu lles meddyliol ac emosiynol. Maent yn datblygu'r gallu a'r hyder i drafod a rhannu eu teimladau, sy'n gymorth iddynt ddeall a dangos empathi at eraill mewn cyfyngder. Maent yn dangos dealltwriaeth o amrywiaeth ddiwylliannol yn dda, er enghraifft wrth ddysgu am wahanol grefyddau. Maent yn dechrau deall rhai o'r materion moesegol sy'n wynebu'r byd, fel y problemau sy'n cael eu hachosi i'r amgylchedd gan wastraff. Mae aelodau'r cyngor ysgol yn falch o'u hymdrechion i gefnogi elusennau lleol a chenedlaethol, er enghraifft trwy godi arian at ysgol yn Uganda.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd gwneud dewisiadau da sy'n effeithio ar eu hiechyd. Maent yn deall pwysigrwydd deiet cytbwys ac am yr angen i gadw'r corff a'r meddwl yn iach. Maent yn gwneud penderfyniadau gwybodus am yr hyn maent yn ei fwyta ac yfed a'u ffordd o fyw, er enghraifft wrth yfed dŵr yn rheolaidd a choginio prydau iach. Maent yn ymrwymo'n frwdfrydig i'w gwersi addysg gorfforol ac i ystod o weithgareddau hybu ffitrwydd fel y clybiau chwaraeon a thwrnameintiau rygbi, pêl-droed a hoci.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o weithdrefnau cadw'n ddiogel, gan gynnwys cadw'n ddiogel ar-lein. Maent yn cymhwyso hyn yn effeithiol wrth gyflawni eu tasgau dysgu. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn gyson a phrydlon sy'n cyfrannu'n effeithiol at gynnal cyfraddau presenoldeb uchel.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir a chadarn ar gyfer cwricwlwm yr ysgol. Trwy wrando ar gyfraniad yr holl randdeiliaid, mae'r cwricwlwm yn cael ei ddatblygu'n

eang, yn grefftus ac yn gytbwys. Mae staff wedi dylunio a phersonoli egwyddorion Cwricwlwm i Gymru yn hynod effeithiol ac maent wedi eu gwreiddio'n llwyddiannus ymhob agwedd o'r ysgol.

Mae staff yn datblygu cwricwlwm sy'n adlewyrchu natur a chyd-destun y gymuned yn llawn, gan gynnwys gweithgareddau dysgu sy'n ymgorffori natur ieithyddol a diwylliannol yr ardal er mwyn cyfoethogi'r themâu. Mae athrawon yn trefnu ymweliadau gwerthfawr, er enghraifft i Eglwys Llangar, Ystad y Rhug ac Amgueddfa Corwen, a chafwyd gweithdy rhithiol gan swyddogion Amgueddfa Werin Sain Ffagan i ddwysáu eu dealltwriaeth o draddodiadau lleol a chenedlaethol. Mae gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar ddiwylliant cyfoes Cymru yn atgyfnerthu dealltwriaeth disgyblion o Gymreictod yn llwyddiannus. Trwy wahodd ymwelwyr i'r ysgol, mae athrawon yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddathlu amrywiaethau a pharchu crefyddau gwahanol. Mae perthynas agos rhwng yr ysgol a'r rhieni, ac mae llif wybodaeth am gynnydd disgyblion yn sicrhau bod gan rieni wybodaeth gyfredol am gynnydd a lles eu plant.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn darparu cyfleoedd eang ac ysgogol sy'n cefnogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu medrau gwerthfawr. Er enghraifft, mae athrawon yn cynnig gwersi bwyd a maeth yn effeithiol, ac mae disgyblion yn tyfu a chynaeafu llysiau yn yr ardd. Maent yn arddangos a gwerthu cynnyrch o'r ardd mewn sioe leol sy'n atgyfnerthu eu dealltwriaeth o ofalu am eu lles ac am fwyta'n iach. Mae gwersi cerddoriaeth a gwersi yn yr awyr agored yn cyfoethogi'r ddarpariaeth ymhellach sy'n cefnogi disgyblion i ddatblygu'n ddysgwyr uchelgeisiol a hyderus. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd a digidol yn effeithiol. Fodd bynnag, nid ydynt yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd yn ddigon cyson ar draws y cwricwlwm.

Mae'r holl staff yn creu perthnasoedd cadarn â'r disgyblion ac maent yn eu trin â pharch. Maent yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn datblygu diwylliant o gefnogaeth gadarnhaol o fewn cymuned yr ysgol. Mae gan staff ddisgwyliadau uchel o ymddygiad disgyblion ac maent yn manteisio ar gyfleoedd cyson i atgyfnerthu agweddau cadarnhaol at ddysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgolli yn eu dysgu a'i fwynhau yn llwyddiannus.

Mae'r holl staff yn modelu'r Gymraeg yn raenus i atgyfnerthu iaith lafar y disgyblion. Maent yn defnyddio caneuon a hwiangerddi'n effeithiol i atgyfnerthu patrymau iaith ac ymestyn geirfa disgyblion yn fedrus. Trwy holi treiddgar, mae bron bob aelod o staff yn herio dysgwyr i ddatblygu medrau meddwl a datrys problemau yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn cydweithio mewn parau i greu teclyn tacluso mawr gan ddefnyddio rhaglen codio yn fedrus.

Yn gyffredinol, mae pob aelod o staff yn defnyddio dulliau cyson ac amrywiol i asesu cynnydd a dealltwriaeth disgyblion o'r hyn maent yn ei wneud yn dda a'r camau nesaf yn eu dysgu. Ar y cyfan, mae athrawon yn defnyddio adborth llafar ac ysgrifenedig yn effeithiol i gefnogi a herio dysgu disgyblion trwy ddulliau effeithiol. Gan amlaf, mae athrawon yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion asesu eu dysgu eu hunain a'u cyfoedion. Mae athrawon yn rhoi cyfarwyddiadau clir ac amserol sydd yn sicrhau bod cyflymder da i lawer o'r gweithgareddau. Fodd bynnag, mae tueddiad, ar adegau, i athrawon arwain gweithgareddau yn ormodol sy'n cyfyngu ar

gyfleoedd y disgyblion i benderfynu dros eu hunain sut maent yn trefnu a chyflwyno eu gwaith.

Mae'r holl staff yn cydweithio'n effeithiol i greu ardaloedd dysgu diddorol a deniadol. Mae'r ardaloedd tu allan yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gyfoethogi ac atgyfnerthu'r dysgu. Rhoddir pwyslais clir ar ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion trwy ddarparu profiadau ymarferol sy'n eu cefnogi i ddatblygu eu medrau'n effeithiol. At ei gilydd, caiff y gweithgareddau eu cynllunio'n fwriadus er mwyn cymell disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol ac i gefnogi dysgu blaenorol. Er enghraifft, mae ardal adeiladu'r disgyblion ieuengaf yn annog cydweithio ac adeiladu gyda briciau a thywod yn effeithiol. Mae staff yn herio'r disgyblion hynaf i adeiladu ar eu medrau trwy weithgareddau gwaith coed bwriadus.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae staff yr ysgol yn creu cymuned ddiogel, hapus a gofalgar sy'n llwyddo i feithrin medrau personol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn darparu awyrgylch gynhwysol, gynhaliol sy'n adlewyrchu arwyddair yr ysgol, 'Yn y llaw fach mae'r holl fyd'. Mae cefnogaeth ar gyfer anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol disgyblion wedi'i gwreiddio yn holl waith yr ysgol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les a brwdfrydedd disgyblion at ddysgu ac yn cael ei hadlewyrchu yn eu hymddygiad cadarnhaol. Mae datblygu llais y dysgwyr yn un o gonglfeini gweledigaeth yr ysgol. Darperir cyfleoedd cyson i ddisgyblion roi eu mewnbwn i'r cwricwlwm ac i fywyd a gwaith yr ysgol yn gyffredinol.

Mae gan y pennaeth a'r staff addysgu adnabyddiaeth drylwyr o bob plentyn. Mae trafodaethau staff ynghyd â'r ymagwedd o fonitro cyson ac olrhain cynnydd disgyblion yn cyfrannu'n llwyddiannus at adnabod darlun clir a chyfredol o anghenion pob disgybl. Mae hyn yn gymorth pendant i adnabod a gweithredu'n gynnar wrth ymateb i anghenion unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag ADY yn drefnus ac effeithiol. Mae'r cydlynydd yn cydweithio'n glòs â'r athrawon a'r staff cefnogi i gynnig rhaglen gynhwysfawr, gan gynnwys ystod o ymyraethau sy'n diwallu anghenion disgyblion sydd ar y gofrestr ADY a'r disgyblion hynny sy'n destun pryder yn dda. Mae staff yn cynnwys disgyblion, rhieni a barn asiantaethau allanol i gynllunio camau nesaf disgyblion yn eu dysgu yn effeithiol.

Mae hyrwyddo'r Gymraeg a'r defnydd o'r iaith o fewn yr ysgol ac yn gymdeithasol yn un o flaenoriaethau'r ysgol. Darperir cyfleoedd gwerthfawr i aelodau brwdfrydig y cyngor 'Siarter Iaith' arwain ar weithgareddau fel hyrwyddo'r Gymraeg mewn siopau lleol yng Nghorwen. Maent yn frwdfrydig wrth godi arian ar gyfer offer sain i hybu cerddoriaeth Gymraeg ar draws yr ysgol, trefnu 'Clwb Cwtsh' a chreu pecyn rhyngweithiol i rieni ddatblygu eu medrau yn Gymraeg.

Mae ethos yr ysgol a'r gwasanaethau cydaddoli yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn llwyddiannus. Mae staff yn annog disgyblion i fyfyrio ar werthoedd fel tegwch, cyfeillgarwch a charedigrwydd ac i ystyried safbwyntiau eraill yn sensitif, er enghraifft wrth i'r disgyblion hynaf arwain gwasanaeth ar Gerdyn Coch yn erbyn hiliaeth. Mae dysgu am Gristnogaeth a chrefyddau eraill drwy'r gwersi ac yn y sesiynau addoli ar y cyd yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd goddefgarwch a'r hawl i fod yn rhydd rhag aflonyddwch. Caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i ddysgu am y byd yn ehangach. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion

yn trafod y gwahaniaethau ym mywydau plant yn Uganda a Ghana i'w bywyd yma yng Nghymru yn aeddfed. Mae'r ysgol wedi cymryd camau cynnar i gyflwyno'r Ffrangeg fel modd o hybu datblygiad ac ehangu gorwelion disgyblion.

Mae datblygu ymwybyddiaeth a gwybodaeth disgyblion am bwysigrwydd gwarchod y blaned trwy leihau effeithiau newid hinsawdd a chynhesu byd eang yn rhan bwysig o gwricwlwm yr ysgol. Darperir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gyfrannu'n ymarferol ac uniongyrchol sy'n fodd effeithiol o ddysgu am y materion hyn yn fwy ystyrlon, er enghraifft drwy blannu coed ar dir yr ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu dealltwriaeth disgyblion o sut i gadw'n iach yn gorfforol, meddyliol ac emosiynol yn fwriadus. Caiff disgyblion eu hannog i yfed dŵr yn gyson, i sicrhau bod eu pecynnau bwyd yn iachus ac i ddysgu coginio prydau maethlon. Yn ogystal, rhoddir pwyslais amlwg ar ddarparu cyfleoedd pwrpasol a llwyddiannus i hybu ffitrwydd corfforol disgyblion trwy gymryd rhan mewn ystod o chwaraeon ac ymarfer corff.

Mae diwylliant diogelu'r ysgol yn gadarn, ac mae pob un o'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran cyfrannu at ddiogelwch a lles disgyblion. Ceir darpariaeth effeithiol i gynorthwyo disgyblion i'w cadw eu hunain yn ddiogel wrth weithio ar-lein. Mae gan yr ysgol strategaethau cadarn i hyrwyddo prydlondeb a phresenoldeb rheolaidd ymhlith disgyblion, gan gynnwys monitro dyddiol, cyfathrebu'n rheolaidd â rhieni a gwaith dilynol wedi'i gefnogi gan yr awdurdod lleol. O ganlyniad, mae'r cyfraddau presenoldeb yn gyson uchel.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol ac ystyriol, sy'n sicrhau bod gan yr ysgol gyfeiriad strategol clir a diwylliant sy'n hyrwyddo gwelliant parhaus, yn ogystal ag amgylchedd dysgu cadarnhaol. Mae ganddi weledigaeth glir sy'n cael ei chyfathrebu a'i harddel yn effeithiol gan holl randdeiliaid yr ysgol er mwyn hybu amgylchedd dysgu cadarnhaol mewn cymuned glòs, gynhwysol a hapus.

Mae'r pennaeth yn gosod disgwyliadau uchel iddi hi ei hun, i staff, a disgyblion. Caiff gefnogaeth dda gan y pennaeth cynorthwyol. Maent yn modelu gwerthoedd ac ymddygiad proffesiynol sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at gydweithio effeithiol, ac yn arwain at ethos tîm cryf ymhlith staff. Mae arweinwyr yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i bob aelod o staff ddatblygu cyfrifoldebau arwain. Mae hyn yn sicrhau bod staff ar bob lefel yn deall ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau yn effeithiol. Maent yn modelu a hyrwyddo gwerthoedd ac ymddygiad proffesiynol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at wella'r ysgol. Mae hyn yn sicrhau bod gweledigaeth yr ysgol yn cael ei gwireddu'n llawn yng ngwaith yr ysgol. Mae hybu'r Gymraeg a Chymreictod yn flaenoriaeth ac yn ganolog i weledigaeth a holl waith yr ysgol.

Mae arweinwyr yn creu diwylliant ac ethos cadarnhaol i hyrwyddo a chefnogi dysgu proffesiynol pob un o'r staff, gan gynnwys hyfforddiant arweinyddol. Mae hyn yn cysylltu'n glir â blaenoriaethau gwella'r ysgol ac anghenion proffesiynol y staff. Mae arweinwyr yn cadw adroddiad manwl am y cyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n cael eu mynychu gan staff, ac maent yn cael eu mesur yn gywir i ddeall yr effaith ar brofiadau a chynnydd disgyblion. Mae arweinwyr yn nodi'r arferion gorau yn yr ysgol ac yn sicrhau bod aelodau staff eraill yn elwa arnynt. Er enghraifft, maent yn annog

cydweithio pwrpasol ag ysgolion cyfagos i ddatblygu strategaethau i wella medrau llythrennedd, rhifedd, digidol ac ymholi disgyblion.

Mae'r ysgol wedi datblygu prosesau trylwyr i werthuso'i pherfformiad a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae trefniadau i fonitro a gwerthuso gwaith yr ysgol yn cael eu hymgorffori'n greftus ac yn galluogi arweinwyr i nodi'n glir agweddau sydd angen eu blaenoriaethu ar gyfer gwella. Mae'r pennaeth yn sicrhau bod gan yr holl staff rôl weithredol yn y broses. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o gryfderau'r ysgol a'r agweddau sydd angen eu gwella. Mae'r pennaeth ac arweinwyr yr ysgol yn defnyddio canfyddiadau'r broses hunanwerthuso i lunio cyfeiriad strategol clir sy'n canolbwyntio ar wella yn gyson. Er enghraifft, maent wedi adnabod yr angen i barhau i ddatblygu medrau mathemateg a rhifedd disgyblion drwy wahanol gyd-destunau a phrofiadau bywyd.

Ceir ymwybyddiaeth ac ymrwymiad cryf ymhlith arweinwyr a staff i fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn llwyddiannus. Mae arweinwyr ar bob lefel wedi creu diwylliant diogelu cadarnhaol, lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae staff yn cydweithio'n effeithiol i weithredu Cwricwlwm i Gymru a diwygio'r drefn ADY. Mae cynllunio meddylgar a thra ystyriol yn sicrhau bod yr ysgol yn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn sefydlu perthnasoedd cynhyrchiol â rhieni. Mae dulliau cyfathrebu effeithiol yn sicrhau bod rhieni'n cael codi unrhyw faterion a allai gael effaith ar ddysgu a lles eu plentyn yn amserol.

Mae llywodraethwyr yn deall eu rolau'n dda ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n gydwybodol a llwyddiannus. Maent yn cyfrannu'n bwrpasol at osod blaenoriaethau strategol yr ysgol, ac yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'r ddarpariaeth, a'i heffaith ar ddysgu disgyblion. Maent yn darparu cydbwysedd priodol o gymorth a her ac yn dwyn yr ysgol i gyfrif ar ran y gymuned leol yn eu rôl fel ffrindiau beirniadol. Mae'r corff llywodraethol yn sicrhau bod y bwydydd a'r diodydd a ddarperir gan yr ysgol yn cydymffurfio â deddfwriaeth ac mae ganddo drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r ysgol yn rheoli ei chyllid yn effeithlon ac yn ei defnyddio'n synhwyrol yn unol â'r blaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol. Maent yn gwneud defnydd pwrpasol o gyllid grant ychwanegol, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion a ddefnyddir yn ddoeth i ddarparu cymorth â ffocws i helpu ac annog dysgu a lles disgyblion.

Mae staff yn defnyddio adnoddau'r ysgol yn effeithiol i ddarparu amgylchedd dysgu symbylus sy'n cefnogi addysgu a dysgu ac yn cryfhau lles corfforol a meddyliol disgyblion. Maent yn gwneud defnydd rheolaidd o dir helaeth yr ysgol, sy'n cynnwys ardal goedwig ddatblygedig, i ddarparu cyfleoedd ysgogol a chreadigol ar gyfer dysgu yn yr awyr agored.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2023:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  27/12/2023